

## Organ newydd

Yr wythnos hon, bydd organ newydd yn cyrraedd Ebeneser Deiniolen. Diolch yn fawr i Gareth Jones, a ddeallodd fod yr organ i'w chael ac a drefnodd iddi gael ei chynnyg i Ddeiniolen yn rhad ac am ddim.

## Beibl Canllaw

Mae gennyf **un copi** o'r Beibl Canllaw a gyhoeddwyd ddechrau mis Awst ar ôl am y pris gostyngol o £20.

Felly, os ydych chi eisiau arbed £5 oddi ar bris y Beibl hwn, rhowch wybod i mi mor fuan â phosibl trwy ffonio 01286 872390, neu anfon e-bost at john.cilfynydd@btinternet.com.

## Cyhoeddiadau

### CEFNYWAUN AC EBENESER

**Dydd Sul, Hydref 11:** Bydd Cyfarfod Diolchgarwch dan ofal yr aelodau am 5.00 o'r gloch.

**CAPEL COCH A NANT PADARN**  
**Nos Wener, Hydref 9:** CIC am 7.00 o'r gloch.

**Dydd Sul, Hydref 11:** Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

### Y mis nesaf - Deiniolen

#### Hydref 4

10.00 a.m. - Y Gweinidog

#### Hydref 11

5.00 p.m. - Cyfarfod Diolchgarwch yng ngofal yr aelodau

#### Hydref 18

10.00 a.m. - Y Gweinidog  
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.  
Bydd oedfa MOLI am 5.00 o'r gloch.

### REHOBOTH

**Dydd Sul, Hydref 11:** Ni fydd oedfa.

### BETHLEHEM

**Dydd Iau, Hydref 8:** Bwrlwm am 2.15 o'r gloch.

**Dydd Sul, Hydref 11:** Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch ac oedfa am 2.00 o'r gloch dan arweiniad y Gweinidog.

### CARMEL

**Dydd Llun, Hydref 5:** Dosbarth Gwau yn y festri am 2.00 o'r gloch.

**Nos Wener, Hydref 9:** Cynhelir 'Dwylo Prysur' am 6.30 o'r gloch.

**Dydd Sul, Hydref 11:** Bydd yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch. Cynhelir Oedfa Ddiolchgarwch am 5.00 o'r gloch.

### CYNLLUN EFE

**Dydd Gwener, Hydref 9:** Cynhelir y Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caethro am



### Y mis nesaf - Llanberis

#### Hydref 4

10.00 a.m. - Y Parchg Huw Pritchard  
11.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Y Parchg Huw Pritchard

#### Hydref 11

10.00 a.m. - Y Gweinidog  
11.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Oedfa MOLI

#### Hydref 18

10.00 a.m. - Oedfa Parti Bytholwyrdd  
11.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Oedfa Ddiolchgarwch



# Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las  
Rhif 652: Dydd Sul, 04 Hydref, 2015

## Agenda

Diolch am yr Haf Bach Mihangel a ddaeth â mis Medi i ben. Nid syndod yw deall fod y tywydd ar droi, ond mor braf fu cael dyddiau hyfryd, cynnes yr wythnos neu ddwy ddiwethaf.

Mae'n fis newydd arnom. Ond pa fis? Hawdd y gellid meddwl fod rheolwyr Channel 5 beth bynnag yn tybio mai mis Rhagfyr ydi hi. Un ai hynny, neu fod rhywun yn y sianel deledu honno dan yr argraff mai yn ystod mis Hydref yr ydym yn dathlu'r Nadolig. Gredwch chi fod pump o raglenni yn ymwneud â'r Nadolig, yn cynnwys ffilmiau a cherddoriaeth, ar Channel 5 ddoe?

Pwy a wŷr pam y cafwyd diwrnod Nadoligaidd ar Channel 5 ddoe? Dwi ddim am geisio dyfalu. Yr hyn a wn ydi y bydd Cristnogion, os Duw a'i myn, yn dathlu'r Nadolig ym mis Rhagfyr eleni fel pob blwyddyn arall. Gadawed i Channel 5 a'r siopau mawr lusgo dathliadau'r Nadolig dros dri mis cyfan os mynnant, ond mi ddaliwn ni i gadw gŵyl ddiwedd Rhagfyr i ddathlu dyfodiad Mab Duw i'r byd yn ddyn. Mae mwy na digon i'n cadw'n brysur tan hynny, yn cynnwys dathliadau'r Diolchgarwch y mis hwn.

Fynwn i ddim gwneud môr a mynydd o'r mater hwn chwaith. Wedi'r cwbl, mae'r syniad o wyllo ffilmiau am Siôn Corn ddechrau Hydref yn eithaf doniol. Ond mae'r cyfan yn ein hatgoffa o'r angen i'r Eglwys osod ei hagenda ei hunan yn hytrach na dilyn yr agenda a

osodir ar ei chyfer gan eraill. Er mor bwysig yw ymgawdoliad Iesu, wnawn ni ddim treulio tri mis eleni'n gwneud dim ond canu carolau!

Ond mae mwy iddi na hynny hefyd. Mae angen i'r Eglwys benderfynu beth sy'n bwysig iddi a beth sydd angen iddi ei wneud yn hytrach na gadael i'r byd osod yr agenda ar ei chyfer. Mae yna ddigon o bobl sy'n dweud beth y dylai'r Eglwys ei wneud y dyddiau hyn, a digon o bobl hefyd sy'n dweud beth na ddylai'r Eglwys ei wneud. Mae hyd yn oed ei gwrthwynebwyr yn aml iawn yn mynnu dweud wrthi beth y dylai ei wneud. Ond nid yr agenda a osodir o'n blaen gan eraill yr ydym i'w ddilyn. Dyletswydd yr Eglwys yw canfod a dilyn yr agenda a osodwyd ar ei chyfer gan Dduw. Rhan o hynny yw cyhoeddi'r Efengyl, estyn cariad Duw i eraill, a cheisio cyfiawnder i bawb yn mhob sefyllfa.

Mae Duw yn galw ei bobl i ystyried eu cenhadaeth yng ngoleuni'r hyn a ddywed wrthynt yn ei Air. Yn ein bywydau personol ac eglwysig fel ei gilydd, felly, y mae i'r Beibl le cwbl ganolog. Wrth roi sylw i'w neges ac ymateb yn weddigar i'r neges honno y mae Cristnogion ac eglwysi'n medru gosod yr agenda ar gyfer eu bywydau a'u gwaith. Ac o gael yr agenda yn ei le, gweddiwn am nerth a gras i allu ei dilyn yn ffyddlon er mwyn cyhoeddi cariad Duw a hyrwyddo buddiannau ei deyrnas.

## Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen  
Ebeneser (A), Deiniolen  
Capel Coch (P), Llanberis  
Nant Padarn A), Llanberis  
Rehoboth (P), Nant Peris  
Bethlehem (A), Talybont  
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard  
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd  
Ffôn: 01286 872390  
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:  
gronyn.wordpress.com  
neu gronyn.org

## Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon y Sul. Boed bendith Duw ar ein haddoliad heddiw.

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 a 5.00 o'r gloch gan y Parchg Hugh Pritchard, Llangefni. Croeso iddo atom unwaith eto a diolch am ei wasanaeth. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 10.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch a gwasanaethir yn yr oedfa Gymun am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Bydd yr Ysgol Sul yn Nhalybont am 10.00 o'r gloch a gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Dafydd Job, Bangor. Croeso cynnes iddo yntau, a diolch am ei wasanaeth.

Gwasanaethir yn Nant Peris am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

## Cofion

Dymunwn yn dda i bawb arall sydd heb fod yn dda ar hyn o bryd. Mae amryw ohonoch yn methu â dod i'r oedfaon a dymunwn adferiad buan i chi.

## Bedydd

Yn ystod yr oedfa Deulu yn Capel Coch y Sul diwethaf, bedyddiwyd Tomos Cledwyn, mab bychan Llifton a Bethan Jones Cwm-y-glo. Dymunwn fendith Duw iddynt fel teulu.

## Cartref newydd

Yn ystod yr un oedfa hefyd, dymunwyd yn dda i Gareth Jones sydd wedi symud i fyw i Ffordd Deiniol, Deiniolen ers wythnos.

## Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Miss Sis Rowlands, Corlan y Bont, Deiniolen a Mrs Jennie Williams, Rhydfadog. Bu farw eu chwaer Mrs Anna Mary Jones yng Nghaernarfon ar Fedi 22, yn 94 mlwydd oed. Roedd ei hangladd yn Amlogfa Bangor ddydd Mercher, Medi 30 dan arweiniad y Canon Idris Thomas. Boed i Dduw eich cysuro yn eich hiraeth a'ch colled.

## Cymdeithas Deiniolen

Yng nghyfarfod cyntaf tymor newydd Cymdeithas Undebol Deiniolen nos Lun diwethaf croesawyd Annette Bryn Parri atom unwaith eto, a'r tro hwn cawsom ein cyflwyno i sain cerddoriaeth byd y ffilmiau. Diolchwyd iddi gan Mr Brian Price.

## Dechreuadau

Cynhelir cyfarfod nesaf 'Dechreuadau' dan arweiniad y parchg Casi Jones yn festri Bethlehem, Talybont am 1.00 o'r gloch yfory, ddydd Llun, Hydref 5.

Cafwyd cyfarfodydd da ddechrau'r haf ac edrychwn ymlaen at y cyfarfod yfory eto.

## Pwyllgor Gwaith

Bydd Pwyllgor Gwaith Cyfundeb Annibynwyr Gogledd Arfon yn cyfarfod yn festri Bethlehem Talybont am 10.00 o'r gloch ddydd Mawrth, Hydref 6.

## Cymdeithas Llanberis

Mae dyddiad cyfarfod cyntaf tymor newydd Cymdeithas Undebol Llanberis wedi ei newid. Fe'i cynhelir ym mis Tachwedd yn hytrach na mis Hydref.

Y dyddiad newydd yw nos Fawrth, Tachwedd 10, am 7.00 o'r gloch yn Capel Coch.

Annette Bryn Parri, Deiniolen fydd y gwestai yn y cyfarfod hwn hefyd. Mae croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod, yn cynnwys hen aelodau'r Gymdeithas ac unrhyw sydd am ddod atom i wrando ar Annette yn sgwrsio a chanu amrywiaeth o ganeuon ar y piano. Mae'n sicr o fod yn noson ddifyr a safonol. Dowch draw i fwynhau.

## Y Gemau

Diolch i Andrew Settatee am drefnu bore o weithgareddau 'Y Gemau' yn Ysgol Dolbadarn ddydd Iau yr wythnos diwethaf.

Roedd y gwahanol weithgareddau wedi eu seilio ar hanes Dafydd a Goliath ac wedi eu trefnu ar thema rygbi i gydfynd â chystadleuaeth Cwpan Rygbi'r Byd.

Diolch i aelodau'r tim a fu'n helpu i gynnal y ddwy awr o weithgarwch.

Diolch hefyd i Mrs Bethan Jones, y Pennaeth Mewn Gofal yn yr Ysgol, am ganiatau i ni ymweld â'r Ysgol.

## Dau Feibl

Mae'n flwyddyn arbennig iawn yng Nghymru o ran y Beibl Cymraeg.

Yn ystod yr haf, cyhoeddwyd Y Beibl Canllaw (gweler isod) a'r mis nesaf cyhoeddir dau lyfr arbennig arall.

Y cyntaf fydd **beibl.net**, sef y cyfieithiad Cymraeg mewn iaith fodern a welwyd ers rhai blynyddoedd ar y we. Cafodd Efengylau Marc a Luc eu cyhoeddi mewn llyfrynau eisoes, ond eleni bydd y Beibl cyfan yn cael ei gyhoeddi mewn cyfrol am y tro cyntaf.

Mae cryn edrych ymlaen at gael beibl.net mewn llyfr. Bydd ei gyhoeddi mewn llyfr yn golygu bod cyfle i bawb allu darllen y cyfieithiad cyfoes hwn sydd wedi cael croeso mawr gan bobl ifanc, ac yn wir bobl o bob oed ers iddo fod ar gael ar y we.

Yr ail lyfr fydd **beibl.net 356 o storïau o'r Beibl**. Llyfr llawn lliw ar gyfer y plant fydd hwn, a Beibl plant go iawn. Mewn gwirionedd, hwn o bosibl fydd y gwir Feibl plant cyntaf i'w gyhoeddi yn Gymraeg. Ond pam dweud hynny a chymaint o Feiblau lliwgar deniadol wedi eu cyhoeddi dros y blynyddoedd diwethaf? Am mai dyma'r llyfr cyntaf fydd yn cynnwys testun y Beibl ei hun. Mae pob Beibl plant arall wedi cynnwys aralleiriad neu grynodedd o storïau'r Beibl. Ond geiriau beibl.net ei hun fydd yn y llyfr newydd hwn, a bydd hynny yn ei gwneud yn gyfrol arbennig iawn.

Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at weld y ddwy gyfrol.